

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Canllawiau Gweithio Mewn Tywydd Garw

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae disgwyl i sawl aelod o staff yr Awdurdod weithio y tu allan:
- Staff Addysg
 - Uwch Ddarlithwyr
 - Gweithwyr Stad a staff Coedwigaeth
 - Timau Llwybrau Troed
 - Wardeiniaid
 - Staff Meysydd Parcio (yn cynnwys Rheolwr Safle Pen y Pass)
 - Garddwyr ym Mhlas Tan y Bwlch
 - Swyddogion sy'n ymweld â safleoedd
 - Gwirfoddolwyr (a all weithio gydag unrhyw un o'r grwpiau staff uchod)
- 1.2 Dylid nodi, er bod y testun isod yn cyfeirio at grwpiau penodol o staff, gall staff hefyd ymgymryd â thasgau a bennir ar gyfer staff eraill e.e. Wardeiniaid yn arwain teithiau, yn ymgymryd â gwaith maes neu'n gweithio â Gweithwyr Stad.
- 1.3 Cymerir y bydd gan bob un o'r grwpiau staff hyn ddillad glaw priodol ar gyfer eu rolau - a fydd yn wahanol oherwydd natur y rolau a'r dyletswyddau hyn. Mae canllawiau ar gyfer dillad corfforaethol a chyfarpar diogelwch personol ar gael ar y fewnwyd staff.
- 1.4 Paratowyd nifer o ddogfennau gwahanol yn nodi'r canllawiau – daw'r ddogfen hon â phob rhan at ei gilydd mewn un. Mae sawl rhan yn y ddogfen hon gan nad yw'n bosibl cael un ateb sy'n addas i bawb.
- 1.5 Mae'n rhaid seilio penderfyniadau i weithio ai peidio ar asesiad risg o'r dasg a'r amodau tywydd ar y pryd. Dylai'r asesiadau fod yn ddeinamig ac yn barhaus i ddelio ag amodau tywydd newidiol.

2. Staff addysg

- 2.1 Mae'r staff addysg yn arwain teithiau a gwaith maes ar gyfer plant a phobl ifanc (pobl o dan 18 oed). Mae'r testun mewn llythrennau italig isod yn ddyfyniad o Bolisi Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yr Awdurdod (dylid nodi y gwnaed rhai newidiadau a chaiff y rhain eu hadlewyrchu yn y Polisi Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc):

“5.0 Arwain Taith / Gwaith Maes

Fel rhan o'u gwaith bydd aelodau staff yr Awdurdod yn arwain grwpiau o blant a phobl ifanc ar ymweliadau gwaith maes. Mae'r rhain yn rhoi profiad i'r disgyblion sy'n rhan o'r addysg amgylcheddol a gynigir sy'n hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o nodweddion arbennig yr ardal. Rhaid i staff roi blaenoriaeth i les a diogelwch y grŵp wrth eu harwain.

- 5.1 *Rhaid i holl staff yr Awdurdod fydd yn arwain ymweliadau gwaith maes gyda phlant a phobl ifanc fod wedi cael hyfforddiant mewn gweithdrefnau asesu risg*

a byddant yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau i adnabod peryglon posibl i'r grŵp neu i unigolion a'u bod yn gallu ystyried beth i'w wneud i leihau'r risg. Bydd copi o'r asesiad risg ysgrifenedig yn cael ei anfon i'r ysgol / canolfan / coleg ac fe ddilynir canllawiau'r sir ar arwain taith yn ystod unrhyw ymweliad gwaith maes.

- 5.2 Bydd gan staff sy'n arwain ymweliadau gwaith maes brofiad blaenorol o gynnal y fath weithgareddau neu lefel ddigonol o hyfforddiant. Bydd pob swyddog a fydd yn arwain ymweliad gwaith maes wedi ei gymhwyso i roi Cymorth Cyntaf. (Mae'n berthnasol i bob grŵp staff sy'n ymgymryd â gwaith o'r fath, nid yn unig â phlant a phobl ifanc.)
- 5.3 Nid yw'r Awdurdod yn ymgymryd â gweithgareddau y mae'n ofynnol eu trwyddedu o dan ddarpariaethau Deddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 (Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 1996) (Gweler Atodiad 1). Pan ofynnir i'r Awdurdod roi cymorth i grwpiau sy'n cynnal gweithgareddau y mae angen trwydded felly ar eu cyfer, ni fydd yn gwneud hynny onid yw'n fodlon, er gwaetha'r ffaith fod staff yr Awdurdod yn bresennol, fod y gweithgaredd wedi ei drwyddedu a bod y trefniadau ar gyfer y gweithgaredd, ac i'w oruchwylio, yn cydymffurfio'n llawn â gofyniad y drwydded.
- 5.4 Cyn yr ymweliad, bydd yr arweinydd yn rhoi gwybod i grwpiau ysgolion / canolfannau / colegau pa safon offer a dillad fydd eu hangen arnynt. Yr athrawon fydd yn gyfrifol am ofalu fod gan y plant / pobl ifanc ddillad ac offer addas ar y dechrau. Bydd y staff yn cynnal archwiliad terfynol cyn cychwyn ar yr ymweliad ac os nad oes offer addas gan blentyn neu berson ifanc, a dim offer arall ar gael, yna ni fydd ef / hi yn cael mynd.
- 5.5 Bydd staff sy'n arwain ymweliad gwaith maes yn gadael map yn dangos y llwybr a'r daith ym Mhlas Tan y Bwlch (neu mewn man priodol arall) a bydd copi wedi ei anfon i'r ysgol fel rhan o'r asesiad risg. Bydd staff yn cario sach gefn yn cynnwys pecyn cymorth cyntaf, ffôn symudol, chwiban plastig, sach oerfel, cwmpawd, map A.O. o'r safle a thortsh. (Mae'n berthnasol i bob grŵp staff sy'n ymgymryd â gwaith o'r fath, nid yn unig â phlant a phobl ifanc.)
- 5.6 Bydd staff yn gofalu fod lefel goruchwyliaeth a chymhareb staff yr Awdurdod / athrawon a disgyblion y grŵp sy'n ymweld ag unrhyw le yn ddigonol, fel y dangosir isod.

OED	CYMHAREB
o dan 8 oed	2 oedolyn i 12 o blant / person ifanc, ac o hynny ymlaen 1 oedolyn i bob 8 plentyn / person ifanc ychwanegol
o dan 12 oed	2 oedolyn i 15 o blant / person ifanc, ac o hynny ymlaen 1 oedolyn i bob 10 plentyn / person ifanc ychwanegol

dros 12 oed	2 oedolyn i 20 o blant / person ifanc, ac o hynny ymlaen 1 oedolyn i bob 10 ychwanegol
-------------	--

- 5.7 *Cyfrifoldeb yr athro / athrawes mewn gofal fydd disgyblu'r plant / pobl ifanc yn ystod unrhyw ymweliad gwaith maes. Bydd swyddog arweiniol yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r athro / athrawes os gwêl unrhyw ymddygiad a allai beri niwed gan blentyn / person ifanc iddo'i hun neu eraill yn y grŵp. Yr athro / athrawes fydd 'in loco parentis'. Bydd arweinydd y grŵp yn rhoi cyngor ynglŷn ag ymddygiad trwy gydol yr ymweliad gwaith maes, ac os bydd y staff sy'n arwain yn barnu ar unrhyw adeg, ac am ba reswm bynnag, na fyddai'n briodol bwrw ymlaen, yna bydd ef / hi yn dod â'r ymweliad gwaith maes i ben."*

Dylai tywydd, llwybrau byr a / neu lwybrau dianc posibl o'r llwybr a gynlluniwyd oll fod yn rhan o'r asesiad risg ysgrifenedig.

3. Uwch Ddarlithydd

- 3.1 Efallai y bydd yr Uwch Ddarlithydd (a darlithwyr sesiynol) yn arwain grwpiau ar ymweliadau maes / teithiau. Unwaith eto, dylid cynnal asesiad risg sy'n ystyried y llwybr, y tywydd ac ati, ynghyd â gallu aelodau'r grŵp. Dylid cadw copi o'r asesiad risg yn y Plas yn achos argyfwng.
- 3.2 Fel yn achos y staff Addysg, dylid cario cyfarpar diogelwch priodol, e.e. ar y lleiaf bydd staff yn cario sach gefn yn cynnwys pecyn cymorth cyntaf, ffôn symudol, chwiban plastig, bag oerfel, cwmpawd, map A.O. yn ymwneud â'r safle a thortsh.

4. Timau Llwybrau Troed, Gweithwyr Stad a staff Coedwigaeth

4.1 Gweithio ar yr iseldir

Disgwylir i staff barhau i weithio yn y glaw ac aros yn y gwaith tan yr amser gorffen arferol. Fodd bynnag, ni ddymunir i staff weithio y tu allan mewn amodau sy'n ei gwneud yn amhosibl gwneud y gwaith yn ddiogel neu os ydynt am fynd yn wlyb at y croen. Fe all fod eithriadau i hyn os oes angen gwneud gwaith ar frys fel clirio cwlferd sydd wedi gorlifo, ymdrin â materion coed. Os bydd y tywydd yn arw disgwylir i'r aelodau staff hyn ddychwelyd i'w canolfan a gweithio oddi yno.

Mae'n rhaid i unrhyw wriad oddi wrth hyn (dychwelyd i'r ganolfan yn fuan neu orffen yn gynnar) gael ei awdurdodi gan y Pennaeth Gwasanaeth neu Uwch Warden perthnasol.

4.2 Gweithio ar yr ucheldir

Disgwylir i waith barhau yn ystod yr amodau hinsoddol a ganlyn:

- Amodau cynnes boed yn gymylog neu'n heulog
- Glaw ysgafn - cymedrol, glaw mân (cawodydd)
- Eira ysgafn - cymedrol (amodau di-wynt)

- 4.3 Dylid cymryd egwylliau hirach fel yr amlinellir isod pan fydd gwaith yn cael ei wneud yn ystod yr amodau hinsoddol a ganlyn:

- Glaw ysgafn – cymedrol gyda gwynt oer (cawodydd neu barhaus)

- Cenllysg ac eira gyda gwynt oer (cawodydd neu barhaus)
- Eirlaw (cawodydd neu barhaus)

Oriau gwaith mewn tywydd garw

8.00am – 10.15am (gwaith)

10.15am – 10.45am (egwyl)

10.45am – 12.00pm (gwaith)

12.00pm – 12.45pm (cinio)

12.45pm – 2.00pm (gwaith)

2.00pm (Timau llwybrau troed i ddychwelyd i ddepo Cwm y Glo i sychu eu dillad gwaith yn yr uned sychu – aelodau staff eraill i ddychwelyd i'r ganolfan waith)

Dylid cysylltu â'r Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad neu'r Swyddog Prosiectau Mynediad ynghylch yr hyn y dylid ei wneud gyda gweddill y diwrnod gwaith.

4.4 Ni ddylid parhau i weithio yn ystod yr amodau hinsoddol a ganlyn:

- Cenllif o law trwm
- Amodau rhewllyd (gwaith llaw yn unig)
- Stormydd eira
- Stormydd o daranau

Dylid cysylltu â'r Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad neu'r Swyddog Prosiectau Mynediad ynghylch yr hyn y dylid ei wneud gyda'r diwrnod gwaith.

4.5 Cyffredinol:

- Mewn amodau garw dylid gwneud gwaith ar dir is pan fo hynny'n ymarferol
- Dylid bob amser sicrhau bod lloches a chynhesrwydd gyda chyfleusterau ar gyfer paratoi diodydd poeth a darpariaethau cymorth cyntaf yn agos at y lle gwaith
- Rhaid darparu eli haul ffactor uchel.

5. Uwch Wardeiniaid, Wardeiniaid a Wardeiniaid Cynorthwyol

5.1 Mae'r wardeiniaid yn gallu cynllunio ac addasu eu gwaith yn y rhan fwyaf o achosion yn dibynnu ar y tywydd. Os nad yw'n bosibl newid y tasgau i'w cyflawni yna dylid cynnal asesiad risg o'r dasg a'r amodau.

6. Staff y Meysydd Parcio (yn cynnwys Rheolwr Safle Pen y Pass)

6.1 Mae staff y meysydd parcio un ai wedi'u lleoli ym Mhen y Pass, Betws y Coed, Llyn Tegid neu'n ymweld â meysydd parcio'r Awdurdod ledled y Parc gan ddefnyddio cerbydau'r Awdurdod. Mae'r gwaith yn cynnwys rheoli traffig.

6.2 Ym Mhen y Pass mae caban ar gael ynghyd â chyfleusterau safle Pen y Pass. Bydd Rheolwr Safle Pen y Pass wedi'i lleoli yn y prif adeilad, ond mae hefyd yn gyfrifol am reoli'r maes parcio. Mae gan aelodau o staff sy'n ymweld â meysydd parcio eraill loches eu cerbydau ac maent yn gallu defnyddio'r cyfleusterau ym Mhen y Pass, y Pencadlys, y Canolfannau Croeso a'r Canolfannau Wardeiniaid.

7. Garddwyr ym Mhlas Tan y Bwlch

- 7.1 Mae'r Garddwyr yn gallu cynllunio ac addasu eu gwaith yn y rhan fwyaf o achosion yn dibynnu ar y tywydd. Os nad yw'n bosibl newid y tasgau i'w cyflawni yna dylid cynnal asesiad risg o'r dasg a'r amodau.

8. Swyddogion sy'n ymweld â safleoedd

- 8.1 Mae'r swyddogion yn gallu cynllunio ac addasu eu gwaith yn y rhan fwyaf o achosion yn dibynnu ar y tywydd. Os nad yw'n bosibl newid y tasgau i'w cyflawni yna dylid cynnal asesiad risg o'r dasg a'r amodau.